



## Nosweithiau Gwybodaeth Cwricwlaidd / Curricular Information Evening

Rydym wedi trefnu noson i chi'r rhieni (dim plant os gwelwch yn dda) yn nosbarth eich plant yr wythnos yn dechrau Hydref 1af. Cewch gyfle i gwrdd ag athro'ch plentyn ac fe gewch wybodaeth am drefn y dosbarth, dulliau dysgu ynghyd â gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen/Cwricwlwm Cenedlaethol.

*We have arranged parent information evenings (no children please) for the week beginning October 1<sup>st</sup>. These meetings will be held in the classrooms where you will have the opportunity to meet your child's class teacher and be given information regarding class organisation, teaching methods, and information regarding the Foundation Phase/ National Curriculum.*

Hydref / October 1	Dosbarth Derbyn a Meithrin (CS) <i>Reception and Nursery (FP)</i> <i>Mili Malwen ac Elfed Eliffant</i>	Mrs Rogers Mrs Walsh	5.30pm
Hydref / October 2	Blynyddoedd 5 a 6 (CA2) <i>Years 5 and 6 (KS2)</i> <i>William Morgan a Betsi Cadwaladr</i>	Mrs Rickus Miss Reid	5.30pm
Hydref / October 3	Blynyddoedd 3 a 4 (CA2) <i>Years 3 and 4 (KS2)</i> <i>Dewi Sant a Owain Glyndwr</i>	Mrs Thomas/Mrs Black Miss Macdonald	5.30pm
Hydref / October 4	Blynyddoedd 1 a 2 (CS) <i>Years 1 a 2 (FP)</i> <i>Sali Sws a Bili Broga</i>	Miss Fidler Miss Watts	5.30pm

### Presenoldeb 100% / Attendance 100%

Mi fydd tystysgrifau yn cael eu cyflwyno i **37** o blant am fod yn bresennol yn yr ysgol pob dydd tymor yr haf. Mynychodd **13** o blant yr ysgol pob dydd llynedd! ARDDERCHOG!

*Thirty-seven children will be awarded a certificate for attending school every day last term. 13 pupils attended school every day last year! EXCELLENT!*

### Newid Manylion / Change of details

Os ydych chi wedi newid cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, meddyg ag ati, llenwch y ffurflen 'Newid manylion' ar Schoop. Sicrhewch fod gennym y rhif ffôn diweddaraf mewn achos o argyfyngau yn yr ysgol. (Ewch i - [My Schoop/Ysgol Gymraeg Ifor Hael/Edit symbol](#))

*If you have recently changed address, phone number, email address, doctor etc, please fill out the 'Change of details' form on Schoop. Please ensure that we have the very latest phone number in case of emergencies at school. (Go to - [My Schoop/Ysgol Gymraeg Ifor Hael/Edit symbol](#)).*

### Targedau Presenoldeb / Attendance Targets

Targed presenoldeb yr holl ysgol eleni yw **95.8%**. Cefnogwch yr ysgol a'r Bwrdd Llywodraethol i lwyddo trwy osgoi absenoldebau yn ystod amser ysgol. Canran presenoldeb yr ysgol blwyddyn ddiwethaf oedd **95.4%**.

Absenoldeb yn ystod y tymor - Nid oes gan rieni hawl awtomatig i fynd a'u plant ar wyliau yn ystod y tymor. Rhaid gofyn am ganiatâd gan y Pennaeth ymlaen llaw os am fynd a'ch plentyn allan o'r ysgol. Mae pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei sefyllfa. Gellir caniatáu absenoldebau hyd at 10 diwrnod os nad yw presenoldeb y plentyn yn gonsyrn i'r ysgol.

Côd Cosb Benodedig - Mae'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc wedi cymeradwyo mabwysiadu'r Côd Cosb Benodedig sy'n gysylltiedig ag absenoldeb heb awdurdod, plant yn cyrraedd ysgol yn hwyr yn gyson a thriwantaeth. Gall Hysbysiadu Cosb Cyfnod Penodol cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw absenoldeb anawdurdodedig o 10 sesiwn / 5 diwrnod, cyrraedd yn hwyr neu driwantaeth. Y gosb yw £60 os ydych chi'n talu o fewn 28 diwrnod neu £120 os ydych chi'n talu o fewn 42 diwrnod.

The whole school attendance target this year is **95.8%**. Please support the school and Governing Body in achieving this through avoiding absences during term time. The percentage attendance last year was **95.4%**.

Absence during term time – Parents do not have an automatic right to take children on holiday in term time. Permission must be sought from the Head teacher in advance if you intend to take your child out of school. Each application is considered on its merits. Absences of up to 10 days may be granted if the attendance of the child isn't a concern to the school.

**Fixed Term Penalty Notice** - Please be aware that the Cabinet Member for Education and Young People has approved the adoption of the Fixed Penalty Code of Conduct linked to unauthorised absence, persistent lateness and truancy. Fixed Term Penalty Notices may be used for any unauthorised absences of 10 sessions/5 days, lateness or truancy. The penalty is £60 if paid within 28 days or £120 if paid within 42 days.

### **Fel rhiant, rydym yn disgwyl i chi:**

- Sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dylai absenoldeb ond digwydd pan fydd eich plentyn yn sâl, neu os oes rheswm anochel / annisgwyl neu amgylchiadau sy'n achosi anhawster.
- Ffonio/e-bostio/cwblhau y ffurflen absenoldeb ar Schoop, ar fore cyntaf pob absenoldeb gyda'r rheswm, a dweud pryd y bydd y plentyn yn dychwelyd.
- Os yn bosibl, trefnu apwyntiadau deintydd a doctor allan o oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, hysbysu'r ysgol 24 awr cyn yr apwyntiad. Ni fydd disgyblion yn cael eu gadael allan yn 'gynnar' o ganlyniad i apwyntiad heb hysbysiad ymlaen llaw.
- Ein diweddarau ar y ffôn neu trwy lythyr os bydd eich plentyn yn absennol am gyfnod estynedig oherwydd salwch.

**Oes oes unrhyw salwch, gofynnwn yn garedig i chi ddilyn y canllawiau atodedig.**

### **As a parent we expect you to:**

- *Ensure that your child attends school regularly. Absence should only happen when your child is significantly ill and therefore unfit to attend school, or if there is an unavoidable/unforeseen reason or circumstance which is causing a difficulty.*
- *Ring/email/complete the absence form on Schoop, on the first morning of all absences with the reason and saying when the child will return.*
- *If possible, arranging all non-emergency dental and doctor's appointments out of school hours or during school breaks. Where this is not possible, notify the school 24 hours before the appointment. Pupils will not be allowed to leave 'early' due to an appointment without prior notification.*
- *Keep us updated by telephone or letter if your child has an extended period of absence due to illness.*

***If your child is unwell, we kindly ask for you to follow the attached guidelines.***

### **Noson Rieni / Parent Evenings**

Cadwch noson y 15fed a'r 16eg o Hydref yn rhydd (17eg i blant Blwyddyn 4 - OG). Bydd llythyron gyda'ch diwrnod/amser penodedig yn cael eu hanfon allan wythnos nesaf.

*Please keep the evening of the 15th and 16th free (17th for Year 4 parents - OG). Letters with your appointed day/time will be sent out to you next week.*

### **Gwersi Offerynnol / Instrumental lessons**

Dyma ddiwrnodau'r gwersi – cofiwch yr offeryn.

*These are the lesson days – remember the instrument.*

<b>Offeryn</b>	<b>Diwrnod</b>
Ffidil/ <i>Violin</i>	Dydd Mercher/ <i>Wednesday</i>
Allweddell/ <i>Keyboard</i>	Dydd Mercher/ <i>Wednesday</i>
Ffliwt/ <i>Clarinet</i> (Bl 3,4,5)	Dydd Iau/ <i>Thursday</i>
Telyn/ <i>Harp</i>	Dydd Mawrth/ <i>Tuesday</i>
Gitar/ <i>Guitar</i>	Dydd Mawrth/ <i>Tuesday</i>

## Rags 2 Riches

Bydd yr ysgol yn derbyn 45c y kilo o'r eitemau rydych yn ailgylchu. Bydd y bagiau'n cael eu hanfon allan wythnos nesaf? Dychwelwch fagiau llawn ar ddydd **Mawrth 16eg** o Hydref os gwelwch yn dda. Peidiwch ag anfon bagiau llawn cyn y dyddiad hwn gan fod dim lle gan yr ysgol i'w storio. Diolch.

*The school will receive 45p per kilo of items you recycle. Bags will go out to you next week. Please return filled bags by **Tuesday, 16th October**. Do not send in filled bags before these dates as the school has no spare corner for storage! Diolch.*

## Derbyn Ysgol Uwchradd / Secondary Admissions applications:

*Agor/Admissions round opens 1/10/18*

*Cau /Admissions round closes 30/11/18*

## Derbyn Dosbarth Derbyn/ Reception Admissions applications:

*Agor/Admissions round opens 5/11/18*

*Cau /Admissions round closes 14/01/19*

## Materion Iechyd a Diogelwch / Health and Safety Matters

Gofynnwn yn garedig i chi i beidio dod â **chŵn** ar safle'r ysgol ac i beidio'u clymu wrth y fynedfa - mae rhai plant yn ofnus o gŵn. Hefyd, hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch atgoffa'n garedig na chaniateir **ysmygu** (gan gynnwys e-sigarets), ar safle'r ysgol, yn unol â pholisi'r sir/ysgol. Mae hyn er lles a iechyd eich plant. Diolch.

*We would ask you kindly not to bring **dogs** on to the school site and not to tie them at the entrance – some children are frightened of dogs. We would also like to take this opportunity to kindly remind you that, in accordance with LA and school policy, **smoking** (including e-cigarettes), is not permitted on the school site or outside our main gates. This is for the health and welfare of your children. Diolch.*

## Lluniau unigol neu deulu: Dydd Gwener yma, 28ain o Fedi

### **Individual or family photographs: this Friday, 28th September**

Mae cwmni Colorfoto yn dod i'r ysgol ar y 28ain o Fedi i dynnu lluniau pob plentyn yn unigol. Nodwch ar Schoop os hoffech lun gyda brawd/chwaer/teulu **iau**. Bydd brodyr a chwiorydd o fewn yr ysgol yn cael llun gyda'i gilydd yn awtomatig. Bydd y ffotograffydd yn barod i dynnu lluniau'r plant cyn-oedran ysgol am 8.30 y bore.

*The Colorfoto company is coming to school on 28<sup>th</sup> October to take an individual photograph of each child. Note on Schoop if you would like a photograph with a **younger** brother/sister/family (pre-school). Siblings in school will automatically have their photograph taken together. The photographer will take photographs of pre-school children at 8.30 am onwards.*